Ceiriog yr 20fed Ganrif

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 18. Rhif 12.] RHAGFYR, 1918. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Buddugoliaeth.
Mynedi Heibio.
Duw y German.
"Casgliad o Emynau a Thonau."
Y Parch. Jenkin Lloyd Jones.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gelifen, Llanelli.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goneb aethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD . . . .
SION CENT	GWAITH GLANYGORS .
GWILYM MARLES . . .	ROBERT OWEN . . . .
ALUN	GWAITH ANN GRIFFITHS.

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1918. [CYF. XVIII. RHIF 12.

BUDDUGOLIAETH.

AR yr unfed-ar-ddeg o Dachwedd daeth y newydd da i godi llwyth o ofid a phryder oddiar feddyliau a chalonnau pawb o honom. Mae'n wir fod terfyn buan a boddhaol i'r rhyfel yn fater gweddol sicr er's rhai wythnosau cyn hynny; ond hyd y dydd a ennwyd yr oedd yn bosibl i'r alanas fawr barhau i fisoedd oer y gauaf a'r gwanwyn cynnar. Gwyddom bellach fod y trychineb drosodd, ac y mae llawenydd a diolchgarwch yn llanw ein calonnau.

Caiff hyd yn oed y rhai ddioddefasant y galar trymaf foddhad prudd wrth feddwl na fu yr holl aberth a'r dioddef yn ofer. Mae'r egwyddorion mawrion dros y rhai y bu'r milwyr yn ymladd a marw wedi eu hachub rhag dinystr y gelyn, a chawn ni y rhai sydd yn ol fyw mewn rhyddid a heddwch. Tywyll fu'r rhagolygon lawer tro, a theimlwn yn fynych fod y wasg yn bathu gobeithion i'r genedl nad oedd ffeithiau yn eu cyfiawnhau, eto islaw pob pryder yr oedd ffydd yn fy nghalon na cha'i anghyfiawnder drechu.

Credwn i yn yr awr dywyllaf fod

CYFIAWNDER YN SICR O ORTHRECHU,

a phe gorfyddai'r gelyn credaswn eto ddarfod iddo orthrechu am fod cyfiawnder o'i du ef yn hytrach nag o'n tu ni. Un o erthyglau fy ffydd yw fod Duw yn hollalluog, yn ddoeth ac yn gyfiawn, a bod cenhedloedd goleuedig y byd yn caru cyfiawnder yn ormod i adael i anghyfiawnder i drechu. Gwyddwn fod i Brydain a'i Chyngrheirwyr lawer o ragoriaethau ac hefyd lawer o ffaeleddau; ymhellach, gwyddwn fod i'r Almaen a'i Chyngrheirwyr hithau hefyd lawer o rinweddau a rhai beiau difrifol. Nid oedd amheuaeth yn fy meddwl nad oedd cyfiawnder yn pwyso'n drwm o'n hochr ni yn y rhyfel hwn; eto, yn nhawelwch fy myfyrgell addefwn i mi fy hun y posibilrwydd, er pob ymdrech i fod yn ddiragfarn, y gallai teimlad gwlad-

garol wŷro fy marn heb yn wybod i mi, a bod y Cyfiawnder hollberffaith, a barn onest gwledydd gwareiddiedig y byd yn ein herbyn.

Ar ddechreu'r rhyfel addefaf fod

Fy Nghydwybod yn Anesmwyth

am ein bod mewn cyngrhair a'r Rwssiaid, dynion nad oedd gennyf ffydd ynddynt, am fod eu Llywodraeth yr un fwyaf gormesol yn Ewrop. Yr oeddym ni yn ymladd dros ryddid a chyfiawnder, ond pa ddyn goleuedig allai ddweyd gyda chydwybod glir fod Rwssia yn cynrychioli yr un egwyddorion? Nis gallwn i ddymuno yn fy nghalon i'r hen Rwssia ormesol ychwanegu ei hawdurdod a'i nerth yn y rhyfel hwn. Credaf mai yr hen gyfundrefn ormesol yn Rwssia fu yn achos i'r Twrc wneud un camsyniad arall yn ei fywyd helbulus, i Sweden ochri yn drwm at yr Almaen, ac i'r Amerig oedi yn hir cyn cymeryd rhan yn y frwydr.

Yr oedd yr Almaen wedi gwneud argraff ddofn ar feddwl y byd oherwydd ei thrylwyredd mewn gwyddoniaeth, yn enwedig fferyllliaeth. Taniodd yr argraff hon ddychymyg diog y Twrc, parlysodd ewyllys wan y Brenin Cystennyn, a sicrhaodd barchus ofn tuag at dduwiau gwyddor yn llawer o wledydd Ewrop. Addefwn fod cryn sail i'r chwedl mai'r

Almaenwyr oedd Fferyllwyr y Byd.

Er hynny, nid oedd gwledydd eraill y byd wedi bod yn gwbl esgeulus o'r gangen bwysig hon o wybodaeth, er nad oeddynt wedi bod mor gwbl lafurus i gyhoeddi'r ffaith i'r byd a thympan fawr o bob nenfwd.

Gŵyr pob un fu am dymor yn yr Almaen fod i gymeriad yr Almaenwyr cyffredin lawer o agweddau ardderchog. Ag eithrio'r Prwssiaid, efallai, yr oedd y bobl gyffredin yn gyfeillgar ac yn garuaidd tuag at yr estroniaid, yn weithgar a darbodus, ac yn byw bywydau dichlynaidd. Yr oeddynt yn bobl ddeallus, ac amhosibl oedd peidio eu parchu a'u caru. O'r tu arall, yr oedd y dosbarth milwrol yn ffroenuchel a thrahaus, ac yr oeddynt yn ddosbarth helaeth iawn. Mewn gwir,

Milwriaeth oedd Crefydd y Wlad.

Yr oedd pob efrydydd ymron yn mynwesu teimlad cudd mai trwy filwriaeth y byddai i'w wlad gyrraedd ei huchelfan fel rheolydd datblygiad a chynnydd y byd. Yr oedd cryn duedd, bymtheg mlynedd yn ol, i fychanu a gwawdio gallu, ac addysg, a moesau Prydain Fawr. Mae'n dra thebyg mai eiddigedd oedd wrth wraidd y duedd.

Dechreuodd Treitschke, yn Berlin, flynyddau maith yn ol, i drwytho meddwl yr Ellmyn a'r gred yng ngallu milwriaeth. Lledaenwyd yr un egwyddor gan Bernhardi, a llawer eraill, nes y daeth yr holl genedl i edrych ymlaen at "Y Dydd" mor awyddus a ffydd-

iog ag y disgwyliai'r Iddewon gynt am eu Messiah. Felly ofer fyddai gwadu nad oedd cyfangorff y genedl y tu ol i'r Llywodraeth pan y cyhoeddwyd y rhyfel.

Mynnai rhai o newyddiaduron y wlad hon i ni gredu, ar y dechre, mai trwy rym y bidog y gyrrodd yr Almaen ei milwyr i ymladd yn Ffrainc—dyna un o anwireddau noeth y wasg sydd yn euog o lawer celwydd gwaeth na hwn. Gyda llawn ffydd yn eu Hymerawdwr a'u milwriaeth, eu gwyddonwyr a'u dyfeiswyr, ymladdai'r Almaenwyr fel rhai yn sicr o fuddugoliaeth, ac heb unrhyw ofn y dygid hwy fyth i gyfrif. Yr oeddynt allan i orchfygu, trwy deg neu anheg, ni waeth p'un.

Yn y cam cyntaf gwnaethont gamsyniad difrifol drwy

Sathru ar Iawnderau Belgium.

Dyna, mewn gwirionedd, fu achos eu cwymp. Pe cawsent ras i adael Belgium yn llonydd, ni fyddai gan Brydain un achos cyfiawn dros ymyrraeth a hwy, ac nis gallai Ffrainc a Rwssia ddal y maes yn hir. Mae gwir yn yr hen ddywediad y myn y duwiau yn gyntaf wallgofi y sawl fynnant ddinystrio. Aeth y gwallgofrwydd yn fwy gwallgof gyda'r awyr-longau a'r tan-forion, nes y bu raid i'r Amerig i ysgwyd cledd er amddiffyn ei hawliau.

Pan ddarfu i'r chwyldroad yn Rwssia waredu'r wlad o'r hen lywodraeth ormesol, llawenhaodd holl garwyr rhyddid a chyfiawnder. Teimlem mai hyfryd fyddai cyd-ymladd a'r Rwssia newydd dros iawnderau dynolryw. Yn anffodus i ni, syrthiodd Rwssia yn ysgyrion trwy ymraniadau a rhyfeloedd cartrefol. Oherwydd diffyg trefn yr oedd y wlad mewn eisiau a newyn dygn, a'r milwyr heb fwyd na nwyddau milwrol. Duw yn rhwydd i Rwssia ieuanc i godi ar ei thraed eto.

Hyd yr adeg yma yr oedd llawer ohonom yn parhau i gredu nad oedd yr Almaen mor ddrwg ei hawydd am yspail ag y darlunid hi. Credaf fi hyd heddyw fod y Canghellydd Bethman Hollweg yn ddyn gweddol onest a chymedrol. Yr oedd yn rhy onest a chymedrol i foddloni mwyafrif ei gydwladwyr, a chollodd ei swydd.

Wedi hyn ceir

Tudalen lled ddu yn hanes yr Almaen.

Yn ol pob tebyg, llwyddodd yr Almaen i lwgr-wobrwyo dynion o ddylanwad yn Rwssia, ac i dwyllo y bobl gyffredin y gallent gael heddwch heb golli tiriogaeth, ac heb dalu iawn. Pan oedd cyflwr Rwssia yn un o wendid diymadferth gorfododd yr Almaen hi i dderbyn cytundeb Brest-Litovsk. Yn ol y cytundeb gwarthus hwn collai Rwssia hanner ei thiriogaeth yn Ewrop, a thri chan miliwn o bunnau yn y fargen. Dyna ffordd yr Almaen o gadw adduned!! Ar ol hyn collodd pawb y gronyn olaf o ymddiried yng ngonestrwydd a chyfiawnder yr Almaen.

Dyna awr ddu, bryderus i ninnau. Yng ngrym y fuddugoliaeth hon ymosododd yr Almaenwyr gyda rhyferthwy bytheiriol yn Ffrainc ar ein byddinoedd ninnau, a daethant yn beryglus o agos i Paris, ond collodd y don ei rhyferthwy, a throwyd hi yn ol. Daeth byddinoedd yr Amerig i'r amddiffynfa, a gwyddom y canlyniad. Aeth y peiriant mawr milwrol yn ddarnau. Syrthiodd teyrnasoedd y gelyn un ar ol y llall, a syrthiodd brenhinoedd o'u gorseddau fel y syrth dail yr Hydref. Heddyw nid yw bwli a bostiwr mawr Ewrop yn ei balas hardd a drudfawr yn Potsdam ; ffoadur crynedig ydyw yn Holland—gwlad fechan fu'n crynu gan ei ofn trwy gydol y rhyfel.

Heddyw

Mae'r Almaen yn Isel ac yn Edifeiriol

er, o bosibl, fod ei hedifeirwch o'r un natur ag eiddo Shylock ar ol iddo weled fod ei amcan maleisus wedi methu, a bod ei fywyd diras mewn perygl. Mae'r Almaen yn tosturio wrthi ei hun ; mae'n ambeus a ydyw yn tosturio tros y gwledydd a ddinystriodd. Taflodd yr Almaen ei heilunod milwrol o'r neilltu, nid oherwydd eu drwg-weithredoedd yn erbyn dynoliaeth, ond oherwydd iddynt fethu gyrru'r peiriant milwrol trwy waed cenhedloedd i fuddugoliaeth. Methiant hollol a dinystr truenus yw gwobr y gweddill o fyddin fawr y Juggernaut.

Nis gall un Cristion lawenhau yng ngwarth a chwymp truenus cenedl sydd wedi gwneud gwasanaeth mawr i'r byd yn y gorffennol, ond diolchwn i'r nefoedd fod creulonedd milwrol wedi ei osod yn isel yn y llwch. Dywed y Tywysog Max fod yr Almaen wedi dysgu'r wers fawr i orchfygu a'i rheoli ei hun. Gobeithiwn ninnau y bydd i'r wlad honno adfer ei henaid. Os y bydd i'r werin-lywodraeth newydd feithrin cleddyf yr ysbryd mor egniol ag y meithrinodd yr hen lywodraeth y cleddyf dur, mae dyfodol disglair eto o flaen yr Almaen.

Nid yw'r Prydeinwyr yn Genedl Ddialgar,

a dyna'r prif achos o'n poblogrwydd a'n llwyddiant yn y byd mawr llydan. Na fydded i ddialedd le yn ein calonnau yn awr. Rhaid i'r Almaen wneud iawn i'r cenhedloedd a sathrodd dan draed, mor bell ag y mae hynny yn bosibl ; y mae cyfiawnder yn gofyn hynny, o leiaf, a chaiff gyfle i edifarhau yn hamddenol am y drwg a gyflawnodd mewn brys. Am un genhedlaeth, o leiaf, bydd nôd Cain wedi ei llosgi ar ei harlais, ac efallai hefyd yn ei henaid.

Credaf mai Prydain, yn bennaf, fu achos cwymp y gelyn. Yr oedd Ffrainc wedi gwanhau yn ddifrifol erbyn diwedd yr ail flwyddyn o'r rhyfel, ac ar ddiwedd y trydydd rhoddodd Rwssia i fyny'r ysbryd. Ond yr oedd byddin Prydain yn cryfhau mewn rhif a phenderfyniad, a daeth yr Amerig drosodd i wneud buddugoliaeth yn sicr.

Boed parch, anrhydedd a diolchgarwch bythol i'r rhai fu'n dioddef ac yn aberthu dros ddynoliaeth ; a gwarth oesol i'r rhai fu'n llanw eu llogellau a phris gwaed y milwyr a syrthiasant. Ar y cyfan, bu mwyafrif mawr ein cenedl yn amyneddgar a hunanymwadol yn y cyfwng caled.

TERFYNAF GYDA NEGES Y CADLYWYDD FOCH I'R MILWYR.

"Ar ol atal y gelyn gyda phenderfyniad diŵyro, chwi a ymosodasoch arno am fisoedd heb seibiant, a chyda ffydd ac egni diflino. Yr ydych wedi ennill y fuddugoliaeth fwyaf mewn hanes, ac wedi ennill i'r byd y fendith gysegredig o Ryddid. Byddwch lawen. Huliasoch eich llumanau a gogoniant anfarwol, a bydd yr oesau dyfodol fyth yn ddiolchgar i chwi."

Dywedwn ninnau "Amen." Rhaid i ninnau yn awr ddechreu adeiladu ar falurion y gorffenol, a phrofi i'r nef a'r ddaear ein bod yn deilwng o'r aberth fawr wnaed er ein mwyn.

MEUDWY.

MYNED HEIBIO.

Mae'n gerfiedig ar y rhos
Mewn gogoniant yn blaguro,
Ac ar fron y lili dlos,
"Myned heibio."

Mae i'w ganfod yn y nen
Pan mae'r huan yn machludo,
Croga'r dynged uwch fy mhen,
"Myned heibio."

Mae'n gerfiedig ar y coed,
Dawnsia'r dail—ond gwywant etto,
Dyna ddull y byd erioed,
"Myned heibio."

Heddyw, teyrn mewn rhwysg a mael
Sieryd – cryna'r gwledydd rhagddo
Ond mae'r dynged ar ei ael,
"Myned heibio."

Mae'n gerfiedig ar y fron,
Lle na ddylai cariad wywo—
Cyfnewidiol ydyw hon,
"Myned heibio."

Ffryndiau ! gawn ni gydfwynhau
Gwlad na wna ei haul fachludo,
Hedd a bywyd yn parhau,
"Dim myn'd heibio."

Gawn ni fyw'n dragwyddol bur
Heb un pechod i'n llychwino,
Wedi i ludded byd a'i gur
"Fyned heibio ?"

O ! os felly hiraeth sydd
Yn fy nghalon am gael huno,
I ddadebru lle na bydd
"Myned heibio."

RHYS ETNA JONES.

DUW Y GERMAN.

[Gan y Parch. J. Tyssul Davies, B.A.]

Mae ymddieithriad yspryd y Prwsiad oddiwrth yr hyn yw yspryd y gweddill o'r byd gwareiddiedig i'w gyfrif yn rhannol gan hanes neilldu-ol y llwyth Tiwtonaidd, oddiwrth yr hwn y deillia ei ddadblygiad crefydd-ol. Mae stori ymddadblygiad crefydd yn Mhrydain yn dechreu gyda Derwyddiaeth y Celt. Cluda ni i lawr drwy Fithriaeth y goresgynwyr Rhufeinig. Yna cymrwyd lle honno gan y duwiau Scandinafaidd, y rhai oeddynt mewn parch gan y Daniaid, Angliaid, &c. Yna dygwyd Cristionogaeth i fewn, ac ategwyd hon gan y Normaniaid pan ddaethant. Agorwyd llwybr pellach i amrywiaeth ysgolion meddyliol gan Ddiwygiad Luther, ac aeth y rhai hynny ar gynnydd gyda phob ychwanegiad newydd o wybodaeth a rhyddid. Mae'r amrywiaeth llwythau hyn wedi helpu i wneud y canlyniad yn fwy ffrwythlawn. Mae mawredd y llwyth Prydeinig i'w briodoli i nifer yr elfennau amrywiol sy'n gwneud i fyny ei gyfansoddiad.

Ond mae hanes y llwythau Tiwtonaidd a arosasant ar ol ar lannau deheuol y Baltic yn wahanol iawn. Preswylient mewn ardal na ddylanwadid arni gan wareiddiad Rhufain. Yr oeddynt wedi eu torri ymaith oddiwrth y symudiadau mawrion oedd yn newid cwstwm ac arfer y llwythau Gorllewinol. Gan i genadaethau boreuaf Cristnogaeth fynd allan yn bennaf i rannau pellennig yr Ymerodraeth Rufeinig ganrifoedd ar ol i weddill yr Ymerodraeth gael eu troi at Gristionogaeth, darfu i'r Tiwtoniaid a ymylent ar y Baltic gadw eu meddylddrychau a'u harferion barbaraidd. Er enghraifft, fe sonia'r hanesydd Rhufeinig, Tacitus, am gwstwm o gysegru ceffylau at wasanaeth y duwiau, ac am yr arwyddion a dynnant oddiwrthynt, fe geir ei gyffelyb yn Norway yn agos i fil o flynyddau yn ddiweddarach. Darfu i'r un nodweddion annibynol a'r un osgoad cyfrwys i wrthwynebu gallu trech, a ddiogelodd y Tiwtoniaid rhag iau Rhufain, eu galluogi hefyd i wrthwynebu Cristnogaeth. Cymrodd saith canrif i droi y Gothiaid, ond yr oedd yna rai llwythau Tiwtonaidd na siglwyd erioed oddiwrth eu gwarogaeth i Odin, prif dduw y grefydd Diwtonaidd. Yr un yw yr enw Odin a Woden y Sacsoniaid, yr hwn a gawn yn Wednes-day, y pedwerydd dydd o'r wythnos. Ar y cyntaf duw'r storom oedd, wedi hynny duw rhyfel, wedi ei arfogi â gwaywffon, a dau flaidd a dwy gigfran yn ei ganlyn. Yn gyffredin, dynion oedd yr aberthau a offrymid i Odin. Un cwstwm barbaraidd oedd y cysegriad o fyddin gelyn fel aberth sanctaidd i Odin. Ystyrid hi yn ddyledswydd grefyddol i lwyr ddinystrio byddin oedd wedi ei gorchfygu, yn nghyd a phobpeth a berthynai iddi. Nodir cwstwm cyffelyb yn 1 Samuel xv., pan y dârfu i Israel anufuddhau i orchymyn tybiedig Duw y llwyth, Jahoel, i ddinystrio'r Amaleciaid yn wryw, benyw, a phlant, yn nghyd a'r oll a feddiannent. Cadwai Israel yr yspail, fel y gwnaeth y German yn Belgium a mannau ereill. Weithiau cawn y German yn ufuddhau i reddf sydd yn hen etifeddiaeth ynddo, i beidio gadael dim ond dinystr ar ei ol. Bu hynny unwaith yn ddyledswydd grefyddol. Credent fod eu gwroniaid hwy, a syrthient mewn rhyfel, yn pasio i Falhala, lle y daethent yn filwyr yn ngwasanaeth Odin. Cyfrifid y bywyd Hwnt fel adlewyrchiad o fywyd yma, bywyd o ymladd a gwledda.

I ddynion oedd wedi gwneud Odin yn brif dduw a'u crefydd yn ym-

gysegriad eithafol orthrechol, ni allai dyfodiad crefydd oedd yn gofyn ymostyngiad ac ufudd-dod byth bod yn dderbyniol, oddigerth pan gynygid hi i arweinwyr rhyfelgar, ac fel moddion buddugoliaeth. Tra mae pobloedd Ewrop i raddau wedi derbyn dylanwad y Nazaread mwyn, y mae yna un llwyth wedi gwrthwynebu yr ysbryd newydd sydd yn honni fod i heddwch ei buddugoliaethau nad ydynt yn llai anrhydeddus nag eiddo rhyfel, ac sydd yn cyhoeddi bendithion masnach ac yn galw am gyfeillach rhyngwladwriaethol.

Cyrhaeddodd Prwsia ei mawredd (ebe Von Bulow) fel gwlad o filwyr a swyddogion. Os ydys yn credu mae'r alwedigaeth fwyaf anrhydeddus yw'r alwedigaeth arfogaethol, fod yna rywbeth sy'n isel mewn masnachu, nad oes dyddordeb mewn cenhedloedd eraill ond yn unig fel pethau i ymladd yn eu herbyn a'u gorchfygu a'u dinystrio, yna nis gall fod unrhyw ffydd wirioneddol mewn goddefiant neu barch y naill at y llall.

Dywedodd Voltaire tua chanol y 18fed ganrif mae prif orchwyl bywyd Prwsia oedd rhyfel. Nid yr un yw corff pobl Germani a phobl Prwsia, ond oherwydd meistrolaeth y Prwsiad, fe ddaeth rhyfel i fod yn brif alwedigaeth yr oll o drigolion Germani.

Nid heb ganlyniadau difrifol i ddiogelwch y byd yw'r ffaith fod Germani wedi bod yn cyhoeddi 700 o gyfrolau y flwyddyn ar y gelfyddyd filwrol.

Honna'r General Bernhardi fod yn rhaid i'r dymuniad am gwrtaith mewn cenedl iachus gael mynegiant ar lwybr y dymuniad am allu gwleidyddol, ac mae dyledswydd flaenaf gwladweiniaeth yw caffael a diogelu ac hyrwyddo'r gallu hwn drwy nerth arfau. Cyn dechreu y rhyfel echryslawn maentumiai pobl Germani yr hawl i gychwyn rhyfel, i ymosod, i lofruddio, ac i dorri ar bob rhwymedigaethau rhyngwladwriaethol yn nghyflawniad eu huchelgais cenedlaethol. Mae dros bedair blynedd o dristwch wedi ei brofi drwy yr holl fyd fel canlyniad y cyfryw addysg.

Nis gall fod diogelwch i ddynolryw tra mae cenedl nerthol sydd wedi aros allan o gyraedd dylanwadau dyrchafol gwareiddiad yn dysgu yn gyhoeddus y fath athroniaeth o ormes cenedlaethol. Mae crefydd y German yn ymwrthod a'r iawnderau hynny ag y mae holl grefyddau Dynoliaeth, Cristnogol a Bwdyddol, Brahmaniad a Pharsïad, Taoistiad a Chonffiwsiad, wedi eu cymell. Mae crefydd y German yn gwadu hawl unigolyn neu genedl i'w fywyd ei hun, i'r mwyniant o ffrwythau ei lafur ei hun, i fendithion heddwch—lle mae a fynno ei uchelgais ef.

Fel y gesyd Proff. Cramb ef: 'Mae Corsica wedi gorchfygu Galilea.' Napoleoniaeth, crefydd gormes wedi gorchfygu crefydd dynoliaeth. I Nietzsche yr oedd hyn yn llawenydd mawr.

"Clywsoch sut y dywedid yn yr amser gynt, Gwyn eu byd y rhai addfwyn, canys hwy a etifeddant y ddaear; eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, Gwyn eu byd y rhai dewr, canys hwy a wnant y ddaear yn orsedd iddynt. A chlywsoch ddywedyd, Gwyn eu byd y tlodion yn yr yspryd; eithr yr ydwyf fi yn dywedyd, Gwyn eu byd y mawr ei enaid, a'r rhydd ei yspryd, canys hwy a ant i mewn i Vahala. A chlywsoch ddynion yn dywedyd, Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, eithr yr wyf fi yn dywedyd i chwi, Gwyn eu byd y rhai sy'n gwneud rhyfel, canys hwy a elwir, os nid yn blant i Jehofah, yn blant i Odin, yr hwn sydd yn fwy na Jehofah."

Mae Nietzsche yn meddu'r gwroldeb i alw crefydd Germani—Germani wedi ei Phrwsianeiddio—wrth ei henw priodol. Odiniaeth yw, crefydd barbariaeth ac anwareidd-dra, distryw a thywallt gwaed. Ni fydd dim diogelwch i ddynolryw nes ei llwyr ddifetha hi.

Yn ei ffurf ddiweddar, fodd bynnag, mae crefydd Germani wedi ei lincio wrth gyfundrefn y Wladwr-

iaeth—cyfundrefn sydd yn anfoesol yn ei pherthynas â gwledydd eraill, tra'n gosod delfryd uchel i'r gwladgarwr Germanaidd, yn gymaint a'i fod yn gofyn suddo amcanion personol yn lles y Famwlad, a llwyr aberthiad dedwyddwch personol ar allor y buddiant cyffredinol.

Portreadir y dinesydd delfrydol Germanaidd fel milwr ffyddlon yn myned at ei gadfridog gyda'r erfyniad, "Yn mha wasanaeth y caf fi farw drosoch." Y gred Germanaidd yw fod yr unigolyn, gorff ac enaid, yn perthyn i'r Wladwriaeth. Pan ddywedodd y Caiser wrth y milwyr newyddion os byddai iddo ef orchymyn iddynt saethu eu rhieni yr oeddynt i ufuddhau heb ameu dim. Ni pherthyn i'r unigolyn yr unrhyw ewyllys oddigerth ewyllys y Wladwriaeth. Rhaid i'w foeseg ef roi ffordd i foeseg y Wladwriaeth, ei reddfau trugarog, ei dosturi, ei anrhydedd, roi ffordd pan mae ei wlad yn ymladd am allu. Fel hyn y mae'n digwydd fod dynion caruaidd, o dan orchymyn, yn ymddwyn fel cythreuliaid, ac wedi ymesgusodi trwy ddywedyd, "Fe'n gorchymynwyd ni i wneud felly."

Mae'r fath drawswyriad o'r natur ddynol mor bwysig, mor atgas, mor hynod, fel na allai byth ddigwydd heb iddo yn gyntaf ennill math o awdurdod grefyddol. Braidd y gallai neb anturio dweyd fod peth yn iawn am fod yr Ymerawdwr wedi penderfynu i hynny fod, oddieithr iddynt gredu fod Gallu Dwyfol tu cefn. Dyna beth a ddysgir.

Nid dyn cyffredin yw y Caiser; fe'i cyfarwyddir a'i ysprydolir gan Dduw, yn debyg fel mae Duw'r Catholig yn dewis cynrychiolydd neu raglaw ar y ddaear, felly mae Duw'r German wedi dewis un yn mherson yr *all-highest*, Wilhelm II. Trwyddo ef mae'r Duw Odin wedi rhagarfaethu pobl Germani, i fod yn llywyddion barn, yn rhoddwyr deddf, yn feistriaid holl genhedloedd y ddaear. Mae'r defosiwn iddo ef yn amlygu ei hunan drwy ufuddhau i'w genhadydd, cario allan ei ewyllys frenhinol, gwneud ei bobl ddewisol yn goncwerwyr, a difodi ei elynion. A pha beth yw y prawf o'r partiaeth Dwyfol hwn? Llwyddiant. Fod Duw wedi helpu Germani hyd yn hyn sydd brawf o gyfiawnder achos Germani—dyna opiniwn cynhadledd y Bedyddwyr Germanaidd.

Yr oedd y Proff. Bang, yn ei anerchiad ar y Duw Germanaidd, yn hawlio "Mae Germani oedd pegwn cynlluniau Duw i'r byd; fod Duw a Germani yn perthyn i'w gilydd. Enaid y German yw enaid Duw; mae'n rhaid iddo, ac fe wna, arglwyddiaethu ar ddynoliaeth."

Felly yn y rhyfel hwn, yr ydym yn ddiarwybod yn cario ymlaen ryfel crefyddol. Tra mae'r duedd yn raddol wedi bod yn nghyfeiriad meddylddrych o grefydd gyffredin, crefydd dynoliaeth, crefydd un sydd yn Dad dynolryw, mae'r Germaniaid wedi mynd yn ol at syniad Iddewaeth boreuol, at y syniad o Dduw cenedlaethol. Yn yr ystyr hyn ymddengys y Caiser, y pechadur mawr, i'w bobl ei hun fel dyn sy'n ofni Duw. Mae ei Dduw o'r fath natur fel y mae yn sancteiddio yr oll a wneir er dyrchafiad ymerodraeth yr Hohenzollern nad pa mor erchyll bynnag yr ymddengys i eraill. Gan fod pob trosedd wedi ei gyfiawnhau ar seiliau crefyddol gan yr awdurdodau Germanaidd, yr ydym ni yn yr ymdrech bresennol rhwng Odiniaeth a chrefydd dynoliaeth, rhwng barbareiddra ac urddas milwraidd, rhwng unbennaeth a gweriniaeth, wrth y gwaith o geisio difodi Duw creulawn. Fel y dywedodd Proff. Jacks yn ei sylw ar y German *Hymn of Hate*, "Yr ydym yn ymladd ag Uffern. Nid yw creulondeb a bradwriaeth ond amlygiad arwynebol o'i natur. Dyma wir yspryd y Pwll."

A ellir llethu Odiniaeth allan o fodolaeth? Mae nerthoedd ymddatblygiad wedi eu trefnu yn ei erbyn—dylanwad, nid ni ein hunain, yn cyrchu at gyfiawnder. Mae yn ei erbyn y teimlad o Gyfiawnder wedi cael cam, o Galon Dynoliaeth wedi ei sarhau.

Heblaw hynny, ni allai Odiniaeth ddim cyfiawnhau ei hunan, ond trwy lwyddiant ei ddisgyblion. Dyna addewid ei broffwyd. "Ni allaf fethu. Mae fy myddin yn anorchfygol, am fod Duw o'm tu." Os gan hynny y gellir gorchfygu byddin Odin, yna mae ei allu ar ben. Mae ei broffwyd wedi ei brofi yn ffug, a'i grefydd wedi syrthio i anfri.

Mae'r gorchwyl sy mewn llaw gan y Cyngrheiriaid yn rhywbeth mwy hanfodol a phell-gyrhaeddol na gorchfygu byddin. Mae ganddynt i ddinystrio anghenfil, Moloch, ellyll anferth, bwyd yr hwn yw gwaed miliynau o bobl ifeinc. Rhaid i'r archwaeth ffiaidd hwn am waed, y trachwant am awdurdod, gael ei ladd cyn y gall y byd eto iawn anadlu; cyn y bydd eto yn teimlo yn ddiogel, a chydag ef rhaid i'r offeiriadaeth arfog a'i greulondeb erchyll fynd, y pryd hynny yn unig y bydd rhyddid pobl heddychlawn y ddaear unwaith eto wedi ei adferu a'i adsefydlu ar sail sicr a pharhaol. --*Cyfieithiad.*

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU.

Nid oeddwn wedi bwriadu ysgrifenu ym mhellach o dan y penawd uchod. Ysgrif ddiwygiedig o'r un flaenorol gan "Undodwr o Geredigion," yr hon a ymddangosodd yn yr YMOFYNYDD, am mis Tachwedd, yn unig sydd wedi peri i mi newid fy nghwrs.

Mae yr ysgrif hon wedi ennill fy edmygedd am fod yr awdwr yn trin ei bwnc yn gymedrol ac ystyriol. Ni ddarfu i mi weled o'r blaen gymaint o welliant a chyfnewidiad yn ymddygiad dyn mewn cyn lleied o amser.

Teimlaf fod arogl o ddidwylledd yn yr ysgrif hon, a chredaf y bydd yn achos o ystyriaeth i bwyllgorau cymanfaoedd yn y dyfodol pan yn dethol tonau ac emynau. Gresyn iddo fod mor frysiog a byrbwyll wrth ddarllen fy ysgrif, a'i fod trwy hynny fel Ioan gynt yn ynys Patmos wedi cael gweledigaethau dychmygol. Gwnes amddiffyn y pwyllgor yn yr un ysbryd ag y gwnaeth ef ymosod arno; a dyna oedd fy amcan, ac nid achosi dirywiad yng nghaniadaeth y cysegr. Y mae yntau erbyn hyn wedi gweld ei gamsyniad, ac wedi tyfu mewn moesgarwch a rheswm. Geilw fy ysgrif yn "wawdiaeth wag o *swn* heb sylwedd." Pwy erioed glywodd *swn* mewn ysgrif? Dywed hefyd, mai fy safon i o ganu cysegredig yw eiddo "Byddin yr Iachawdwriaeth." Dyma gamsyniad dybryd, neu wawdiaith o'r fath waethaf. Fy amcan wrth gyfeirio at y cyfryw oedd dangos, fel y cenfydd pob darllenydd arall ag sydd yn berchen ar dipyn o synwyr cyffredin fod yn rhaid cael amrywiaeth mewn tonau ac emynau er mwyn cyfarfod a chwaeth a thueddiadau gwahanol bersonau. Efallai fod yr amrywiaeth y cyfeiriaf ati yn fwy amlwg ym mhlith y beirdd nag yn y byd cerddorol. Gwnaf eto un ymgais i egluro y peth hwn i'r "Undodwr," ac iddo ef yn unig, am y credaf fod pawb eraill yn ei ddeall.

Cymerwn, er engraifft, Dafydd Ionawr. Treuliodd ef flynyddau i gyfansoddi "Cywydd y Drindod"—dernyn meithach na *Paradise Lost*, a chanfyddir trwy yr holl ddarn fod pynciau diwynyddol yn gydnaws a'i

ddelfrydau a'i anianawd. Ond ni chawn gan Geiriog ddim ag sydd yn ymddangos ei fod wedi ei gasglu ar yr un meusydd ag y casglodd Dafydd Ionawr ddefnyddiau'i gywydd. Bardd y gornant, y dyffryn, a'r mynydd oedd Ceiriog. Bardd pawb a phobpeth gwledig oedd Mynyddog, a bardd y werin oedd Amnon, a byddai cyfansoddi darn o farddoniaeth athrawiaethol, yn rhifo dros bum mil o linellau, fel "Theomemphus" gan Williams, Pantycelyn, yn fath o benyd-wasanaeth iddynt hwy am y byddai canu ar y fath destyn yn groes i'w tueddfryd. Yr un modd, nis gallai Dafydd Ionawr a Williams, Pantycelyn, aneddu yn yr un awyrgylch a Ceiriog, Mynyddog ac Amnon. Dyna ddigon, gobeithio, i argyhoeddi "Undodwr" fod dynion yn gwahaniaethu yn eu hanian, eu teimladau a'u syniadau.

Drwg gennyf na chafodd ddigon o ras ataliol i beidio rhyfygu drwy awgrymu am fynd a'r *Concertina* i'r addoliad, a chanu yno y "Sospan Fach" a'r "Mochyn Du."

Methaf weled paham y mae yn cydmaru Morganwg a Cheredigion, ac yn awgrymu mai anfoesoldeb sydd yn teyrnasu yn y lle blaenaf. Ai nid yno y siglwyd cryd Cristionogaeth yn y bumed ganrif? Ac anhawdd yw i neb beidio edmygu athrylith Cattwg Ddoeth, yr hwn a flodeuodd yn y cyfnod hwnnw. Mewn cyfnod diweddarach blodeuodd Iolo Morganwg yno, bardd a hynafiaethydd diail, ac os nad oes ganddo barch i'r fath arwr ni ddylai enllibio bro ei enedigaeth.

Teimla yr "Undodwr" yn awr fod ei ysgrif gyntaf wedi archolli teimladau Undodwyr Ceredigion. Geilw hwynt y tro yma yn "ddynion diwylliedig ac uchel eu moesau." Rhyw fath o

"Eli Treffynnon
I'w gwella yn union."

Tebyg ei fod wedi clywed yr hen ddihareb honno: "Tebyg i ddyn fydd ei lwdn," ac os gwir y dywediad y foeswers yw, mai dynion anfoesol yw "Undodiaid Ceredigion" neu ni fuasent (yn ol ei dystiolaeth ef) wedi dethol tonau mor anfoesol i'w canu yn y gymanfa a'r eglwys. Er nad wyf wedi cael fy nghyhuddo erioed gan neb o fod yn gerddor, eto yr wyf yn cydsynio a'm cyfaill fod llawer o emynau a thonau yn cael eu ieuo'n anghydmarus. Amlwg yw mae'r un ydyw awdwr y ddwy ysgrif sydd wedi ymddangos o dan y penawd uchod—un yn rhifyn Awst a'r llall yn rhifyn Tachwedd o'r YMOFYNYDD, ond ei fod y tro hwn yn amlygu ei hun mewn gwedd arall. Gwisga wedd adolygydd y tro yma, ac y mae yn dadansoddi'n fedrus. Condemniwr oedd ym mis Awst.

Fy nymuniad yw, imi fod yn fwy o gynorthwy iddo nag o dramgwydd ar fynydd y gweddnewidiad.

CARDI ODDICARTREF.

DIWEDD BLWYDDYN.

Blwyddyn i'w therfyn ddaw!
Ffarwel,—Hen ffrynd,
Dagrau ac ysgwyd llaw,
Wedyn rhaid mynd.
Cario ein hanes wnai
Adref at Dduw.
Aed o dy gof bob bai,
Ynom wrth fyw.

Croesaw ddyfodol gwell,
Llawen pan ddaw.
Gofid a bai ymhell,
Canwn heb daw.
Diwedd pob blwyddyn wel
Ddiwedd rhyw fai,—
Diwedd ein hoes pan ddel
Nef gawn fwynhau.

HAWEN.

JENKIN LLOYD JONES.

Gan Dr. H. O. Rowlands.

Haedda y gwr enwog mae ei enw uchod fwy o sylw nag yw yn debyg o gael mewn cylchoedd Cymreig. Pan oeddwn yn hogyn bach yn ardal Waukhesha cofiwyf yn dda am ryw ddyn bychan a chefn crwca ganddo yn mynychu y Cyfarfodydd Dosbarth a'r cymanfaoedd a gynelid yn yr ardal. Tybiwyf, ond nid wyf yn sicr, mai Enoch Jones oedd ei enw, gwisgai *stove pipe hat*, a phwysai yn drwm ar ei ffon. Yn Ixonia yr oedd yn byw. Pa un ai tad ai ewythr i'n gwrthrych oedd y Jones hwn ni allaf fod yn sicr, ond yr oedd yn y teulu. Cofiwyf hefyd fod ryw nod annymunol ar enw a phresenoldeb y dyn. Nid oedd yn anonest, nac yn anfoesol mewn un arwedd, ond yr oedd yn Sosiniad! Ni wyddwn yn y byd beth oedd Sosiniad. Yr oedd genyf ryw ffansi mai pobl o gefn crwca oeddynt fel y "dyn bach o Ixonia," ond yr oeddynt yn fodau peryglus ac i'w gwylio gydag ameuaeth. Cadw tipyn o bellder a wnawn oddiwrth y "dyn crwca" rhag ofn fod cyffyrddiad ag ef yn niweidiol. Clywn hefyd ei fod yn ddyn deallus, darllengar, ac yn gymydog da a gonest, ac yn ddadleuwr peryglus. Ei gred dduwinyddol oedd yr "hoodoo" oedd yn ei ddyeithrio oddiwrth gymdeithas ac ymddiried yr arweinwyr Cymreig.

Mae yn sir Aberteifi sefydliad o Undodiaid; maent yno er's tair neu bedair oes o leiaf. Ni wn braidd ddim am eu dechreuad na'u hanes. Mae ganddynt goleg clasurol a duwinyddol, ond maent yn rhyddfrydol iawn, ac â nifer o ddynion ieuainc iddynt o enwadau uniongredol i ymbarotoi i'r weinidogaeth. Clywais am danynt eu bod yn ddadleuwyr cryfion o blaid eu daliadau dros y rhai maent yn deyrngarol a dwysol selog. O'r tylwyth yna yr hanodd Jenkyn Lloyd Jones. Etifeddodd yr oll oedd yn sylweddol ac hanfodol mewn Undodiaeth, ac enillodd "bum talent eraill" atynt. Er ei fod wedi ei godi i fyny a'i fagu o fewn ugain milldir i'm cartref genedigol yn Wisconsin, nid oedd ond tua chwarter canrif er pan gyfarfyddasom. Yr oedd cydnabyddiaeth personau a buddianau eraill yn ei gwneyd yn hawdd i ni ddyfod yn hen gyfeillion ar unwaith, ac yr oeddwn dan ryw fath o gyd-ddealldwriaeth i bregethu yn ei sefydliad pan gawn hamdden. Yn ei olygiadau duwinyddol yr oedd Mr. Jones agos mor bell oddiwrth Undodiaeth Channing, ac hyd yn oed Savage ag oeddynt hwy oddiwrth uniongredaeth. I Mr. Jones nid oedd y pwys lleiaf p'un ai uniongredydd, neu Undodydd, neu Fwddhist oedd dyn, cae dderbyniad i'w sefydliad i gydweithredu yn ei bwrpasau a'i amcanion. Anwybyddai bob peth fel eglwysyddiaeth.

Parthed ei dduwinyddiaeth, nid oedd ganddo dduwinyddiaeth; byddinesydd (*cosmopolitan*) oedd. Yr oedd ei holl natur a'i ysbryd yn cael eu hysu gan wladgarwch a dyngarwch. Yr oedd ganddo galon fawr gynes a bywiog yn curo yn angerddol yn erbyn pob trais, gormes, a drygioni mewn gwlad a *pholitics*. Yr oedd mor dyner a phlentyn, ac nid oedd creulondeb, galanas, a dystryw ond enwau eraill ar uffern ganddo. Credwyf mai o'r ysbryd yna yn fwy nag o'i egwyddorion deallol y tarddai ei wrthwynebiad eithafol i'r rhyfel, a'i ymgais gyda Ford, Aked, ac eraill i gael telerau heddwch y Germaniaid. Hawddach fuasai iddo dynu gwaed o feipen, neu flodau o grynswth o ia. Yn y rhedegfa rhwng pen a chalon Lloyd Jones, er fod ehediad y naill a'r llall fel ehediad eryr, ond efallai mai y galon oedd y fuanach. Dyna oedd

nythle ei basiffistiaeth anghymodol, ac i dyb llawer o'i gyfeillion ychydig o gyfalaf a enillodd oddiwrtho.

Yr oedd yn ddyn o bersonoliaeth arnodol gref. Gyda'i gorff cyhyrol ac argraffol, ei ben mawr, ei lygaid cynniweiriol, ei farf wen, hirlaes, ei aeliau trymion a'i ysbryd boddus, cyfeillgar, a brwdus—ei dalent ymddyddanol a'i wybodaeth gyffredinol eang, unai yr oll i'w wneyd yn berson arnodol mewn cymdeithas. Ar y llwyfan yr oedd yn areithydd effeithiol a gwefrol. Nid oedd ei lais yn soniarus na'i ystumiau yn brydferth, yr oedd yn rhy fawr i ystyried pethau felly. 'Roedd ei feddyliau yn euraidd, ei fynegiadau mewn iaith groew ac eglur, ei reitheg yn anarferol finiog. ei ysbryd yn eangfryd; ond at bob camwri yr oedd yn anghymodol ffyrnig a llym. Clywais ef yn Chicago mewn cymanfa o areithwyr blaenaf y wlad, ac nid oedd yn ail i un o honynt yn effeithiolrwydd ei anerchiad. Nid wyf yn sicr a gyfansoddodd farddoniaeth, ond yr oedd ysbryd barddoniaeth yn ei feddianu ac yn trydanu trwy ei eiriau. Nid oedd dim yn angenrheidiol yn ei anerchiadau ond mydr a chynghanedd i'w gwneyd yn bryddestau gorchestol. Yn hyn yr oedd yr ysbryd Cymreig ynddo yn oresgynol. Yr oeddwn dan fath o ddealldwriaeth ag ef i bregethu yn ei bwlpud pan gawn hamdden, ond ni ddaeth yr adeg. Fy mherthynas ddiweddaf ag ef oedd bod yn gyd-feirniaid ar nifer o gyfansoddiadau Eisteddfod San Francisco. Nid oedd ei iechyd yn dda, a thaflodd arnaf fwy na'm rhan o'r gwaith a'r cyfrifoldeb, ond nid oedd y gwahaniaeth lleiaf rhyngom parthed teilyngdod y cyfansoddiadau. Traddodais anerchiad unwaith yn ei sefydliad a chyhoeddodd hi yn yr "Unity," y papyr wythnosol a olygai.

Yn ei farwolaeth pasiodd ymaith i fyd yr anfarwolion un o'r dinasyddion Americanaidd mwyaf adnabyddus. Cymro cynesgalon, gwladgarwr selog, a llenor clasurol a galluog. Bu ei olygiadau crefyddol yn llawer mwy o rwystr nag o help iddo. Nid oedd un enwad crefyddol na phlaid boliticaidd na diwygwyr cymdeithasol yn foddlawn i'w fabwysiadu a bod yn gyfrifol am ei syniadau, *free lance* oedd yn mhob maes o feddylaeth a gweithrediad; ni chymerai ei arwain gan neb dyn, ac ychydig fyddent yn foddlawn i ddilyn ei arweiniad ef. Mae llawer o'r fath ddynion wedi gwneyd gwasanaeth mawr i'r byd, ac mae'r byd yn well o'u bywyd. I'r dosbarth hwn y perthynai y galluog a'r anwyl Jenkyn Lloyd Jones.—*O'r Drych.*

PRIODAS.

Yn Eglwys Caeronen, ar y 9fed o Hydref, gan y Gweinidog ac ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, unwyd mewn glan briodas Thomas Jones, Esgerlas, Cellan, a Hannah Mary Jones, unig ferch Mr. a Mrs. Jones, Ty Capel, Caeronen. Dedwydd oes a bendith y nef ar y ddau.

'Chware bach yw dechreu byw,
Ond chware od o chwerw ydyw.'

MARWGOFION.

HYDREF 10fed, daeth y newydd trist fod David Tom Evans, mab Mr. a Mrs. Evans, Penwern, Ystrad, wedi syrthio yn aberth i'r *influenza.* Nid oedd fythefnos er iddo ef, ynghyd a dau gyfaill ieuanc, adael cartref mewn ufudd-dod i wys eu gwlad, gan ymuno a changen o'r Llynges yn y Palas Grisial, yn Llundain, ac y mae dau o'r tri heddyw yn huno'r hun olaf. Ni bu nemor ddyddiau yn iach wedi ymuno, ac ar fyr rybudd daeth y newydd trist fod y *pneumonia* wedi gafael ynddo. Brysiodd ei dad a'i chwaer yng nghwmni y Parch. D. Cellan Evans at ei erchwyn, ond ehedodd ymaith. Torrwyd ef i lawr yng ngwanwyn bywyd ac yntau ond 19 oed. Bachgen siriol a llednais ydoedd, ac iddo air da gan bawb. Dygwyd ei weddillion marwol gyda'r gerbydres o Lundain y bore Llun dilynol, a chladdwyd yn naear mynwent Brondeifi. Yr oedd yr orsaf orlawn yn ddangoseg o gydymdeimlad ardaloedd â'r tad a'r fam, y brodyr a'r chwiorydd, yn eu galar dwys. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. T. O. Williams, B.A., oddiar y geiriau, "Y mae y cleddyf yn difetha oddiallan megis marwolaeth sydd gartref," "Ymdawelwch a gwybyddwch mai Myfi sydd Dduw." Cynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parch. D. Cellan Evans, a darllenwyd gwasanaeth claddu'r Eglwys ar lan y bedd gan Ficer Plwyf Ystrad.

HYDREF 15, wedi cystudd hir, yn 45 oed, bu farw Mrs. Alice Mary Evans, anwyl briod Mr. John Evans, 313 Commercial Road, Llundain, gan adael ei phriod, dau fab, tad a mam, brodyr a chwiorydd, mewn galar dwys ar ei hol. Claddwyd y dydd Iau canlynol yng nghladdfa gyhoeddus St. Marylebone, East Finchley, N. Mab ydyw Mr. Evans i'r diweddar Mr. a Mrs. Evans, Tower Hill, Llanybyther. Mae yn Gristion rhyddfrydig a goleuedig, ac hyderir fod ei ffydd yn Rhagluniaeth ddoeth y Nef yn foddion i gynnal ei yspryd yn nydd ei brofedigaeth chwerw. Mae'n sicr fod holl gylch adnabyddiaeth Mr. Evans yn cydymdeimlo'n fawr ag ef yn ei amddifadrwydd, ac yn gobeithio y bydd iddo eto i gael nerth i weithio ym mlaen, fel y gallo ddwyn ei blant i fyny yn aelodau defnyddiol o gymdeithas, fel y mae wedi bod ei hun.

HYDREF 19, ar ol cystudd byr o ddau ddiwrnod, Mary, anwyl briod Samuel Evans, Llwyn Smithy, Pontsian, yn 64 oed. Gadawodd mewn galar briod, saith o blant, wyrion, chwaer, brodyr, a llawer o berthynasau ereill a chyfeillion. Gwanaidd iawn oedd iechyd yr ymadawedig er's blynyddoedd lawer - blinid hi gan beswch parhaus—ac felly anfynych y gwelid hi oddicartref. Treuliau ei hamser bron yn gyfangwbl ar yr aelwyd ac o gylch y ty—er hynny mae ei lle yn wâg. Mae'r aelwyd yn wâg hebddi, mae'r ymgom frig yr hwyr yn wâg hebddi, a bellach rhaid trefnu a chario ymlaen waith y ty heb ymgynghori â hi. Wyddai'r byd allanol fawr am dani. Hyd yn oed yn ei chartref, nis gallodd wneud llawer o waith yn herwydd ei hafiechyd, ond yr oedd yno yn trefnu a bwrw'r draul—yr oedd yno i groesawu ei phriod a'i phlant pan ddelent yn eu tro. Er nas gallodd wneud llawer enillodd ymddiriedaeth ei phriod a serch a chariad ei phlant. Cydymdeimlir yn fawr â hwynt yn eu galar. Mae'n gysur i feddwl fod y plant i gyd wedi cyrhaedd oedran i allu brwydro drostynt eu hunain. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi y Mercher canlynol, yn Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. L. Williams a T. A. Thomas,

HYDREF 20, yn 69 oed, ar ol cystudd byr, Mrs. Rachel Thomas, anwyl briod Mr. Rees Thomas, Gwynionydd, Llandyssul. Hanai yr ymadawedig o deulu adnabyddus yn y plwyf; yr oedd yn ferch i Mr. John Lloyd, Gwarllwynoedos. Cafodd ei chaethiwo i'w chartref am flynyddoedd gan afiechyd, ac yng nghylch cudd yr aelwyd y bu yn troi y rhan ddiweddaf o'i hoes. Er hynny, yr oedd sirioldeb bob amser yn ei llygaid, a serchawgrwydd yn ei chalon i bawb dalai ymweliad a hi. Teimlai ddyddordeb dwfn yn llwyddiant yr achos ym Mhantydefaid, lle yr oedd yn aelod. Gwnaeth hi a'i theulu yn ddiweddar anrhegu yr eglwys a Llestri Cymundeb Unigol gwerthfawr, mewn cof am ei mab, ac erys y rhodd hon yn goffa melys am dani hithau bellach. Y dydd Gwener dilynol, claddwyd yr hyn oedd farwol o honni ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, a gorffennwyd ar lan y bedd gan y Parch. John Davies, Tanycoed. Gadawodd mewn galar mawr o'i cholli briod ac un ferch—Mrs. D. Martin Jones, Gwyon Castle.

HYDREF 27, cynhaliwyd gwasanaeth coffa i'r diweddar Private Llewelyn Davies, Welsh Regiment, ym Mrondeifi, Llanbedr. Mab ieuengaf Mr. David Davies, Rhoslwyn, Cwmanne, Llanbedr, ydoedd, a brawd i'r Parch. D. Rhoslwyn Davies. Yr oedd wedi brwydro tros ei wlad a thros ddynoliaeth am dair blynedd, a chlwyfwyd ef yn angeuol ar Hydref 7fed, a bu farw y dydd canlynol, yn 23 oed, ac yr oedd wedi'i gladdu cyn i'r newydd trist gyrraedd Llanbedr. Y mae'r newyddion prudd yn gwau trwy'r ardaloedd, ac y maent yn amlhau, a Llewelyn oedd y pumed o'n milwyr i syrthio. Dyn ieuanc yn llawn gobaith ydoedd, ac yr oedd ei gymeriad yn lân Ni fedrodd llaid y ffosydd na themtasiynau'r milwyr ei lychwinio. Gadawodd dad, tri brawd, chwaer, a pherthynasau ereill i wylo eu colled. Yr oedd Capel Bröndeifi yn orlawn, ac yr oedd yn ddangoseg amlwg o gydymdeimlad yr ardal tuag at y teulu ac o'i pharch tuag at Llewelyn. Pregethodd y Gweinidog oddiar y geiriau "Goddef gystudd megis milwr da, gan brynu yr amser oblegid y dyddiau sydd ddrwg." Nodded y nef fo trostynt yn eu galar.

TACHWEDD 1, yn 14 oed, bu farw John Lewis Jones, Ty'r Capel Brondeifi, o'r *influenza* a'r *pneumonia*. Mab ydoedd i Mrs. Jones, Cwmanne Tavern, Llanbedr, ond wedi gweuthur *mam* er yn ieuanc iawn o Miss Davies, Ty'r Capel. Teimlai'n anhwylus tua hanner yr wythnos, a gwaethygodd mor gyflym fel yr ehedodd ymaith nos Wener. Ryw unwaith y mis cynhelir 'Cwrdd Plant' ym Mrondeifi, ac yn y diweddaf canodd Johnnie 'r 'Plentyn Iesu,' ac yn ystod ei gystudd byr, ond caled, canai'r 'Plentyn Iesu,' ac yn swn emyn bach swynol y plant aeth i wlad Iesu. Dydd ei farw daeth tystysgrifau yr Arholiad i law, ac yntau wedi pasio *gydag anrhydedd*. Yr oedd gennym le i ddisgwyl llawer oddiwrtho—croes i hynny mae yn dod. Bydd yr Ysgol Sul a'r Capel yn wâg hebddo. Yr oedd mor ffyddlon ac mor fyw. Gosododd yr Ysgol Sul *wreath* ar ei fedd, ac hefyd athrawon a chyfeillion o Ysgol Cyngor Heol y Bryn, er cof am 'gyfaill bach ffyddlon a llon.' Gadawodd lu o gyfeillion, heblaw ei berthynasau agosaf, i wylo dagrau hiraeth am Johnnie. Claddwyd y dydd Mercher canlynol ym mynwent Brondeifi (*private*), a gwasanaethwyd gan y Gweinidog, gyda chynorthwy parod y Parch. R. C. Jones.

TACHWEDD 2, wedi cystudd byr, yn 53 oed, bu farw Anne Jones, 1 Heol-y-Felin, Llanbedr, gan adael pedwar o blant i alaru'n ddwys ar ei hol. Yr oedd ei phriod wedi ei rhagflaenu er's pedair blynedd, ac felly mae'r plant erbyn hyn heb dad na mam. Y dydd Mercher canlynol, hebryngwyd ei gweddillion

marwol i'w gosod yn nhy ei hir gartref, ym mynwent Alltyplacca. Ar yr achlysur, gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Oswald Williams, B.A., ac yn y capel a'r fynwent gan ei hen weinidog, y Parch. J. Davies. Tad yr amddifaid fyddo'n noddwr nerthol i'r plant sydd wedi eu gadael fel hyn, ac i'r brodyr a'r chwiorydd ydynt yn cyd-alaru ar ei hol.

TACHWEDD 5, yn 28 oed, Madeline E., merch David ac Elizabeth A. Davies, Dysgwylfa, Trebanos. Hiraeth a leinw ein calon wrth gofnodi ymadawiad geneth mor brydferth o fywyd. Lili wedi ymagoryd i'w llawn dwf ydoedd hi, a gobeithion disglaer wedi cronni ym mynwes mam a thad, brawd a chwaer. Plygodd y blodyn ei ben, dihoenodd ei arddunedd, a hedodd yr ysbryd at yr aneirif lu i'r gwawl aur ; a sibrydodd y teulu, "Yr Arglwydd a roddodd, yr Arglwydd a gymerodd ymaith," &c., ond hiraethlawn yw teulu a chymdeithas ar ol eu caredigion. Claddwyd y Sadwrn dilynnol yng Ngellionen. Gwasanaethwyd yn y tŷ annedd gan y Parchn. D. Eiddig Jones, Clydach (A.), a D. G. Rees, a chan yr olaf yn y capel a glan y bedd.

Ym mlode ei dyddie derch—aeres
Droes i fedd a'i thraserch ; [fwyn
I druan fyd, rhin y ferch
Delynnir o'r fud lannerch.

Banos.

TACHWEDD 12fed, bu angladd Mrs. Tydfil Jones, 27 oed, gwraig Lance-Cpl. Leonard Jones, a merch Mr. William Edwards, Painter, 93 East Road, Tylorstown. Claddwyd yng nghladdfa gyhoeddus Aberdar, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. R. Dennis. Nodded Duw i'r teulu yn eu trallod blin.

TACHWEDD 19, yn 37 mlwydd oed, Mrs. Martha Evans, priod Mr. George B. Evans, Ffinant Arms, Alltyblacca. Bu farw o'r *pneumonia*, ac ni fu ei chystudd ond byr. Drwy ei marwolaeth gwnawd lle gwag iawn yn ei chartref, yn yr ardal, ac yn eglwys Alltyblacca. Bu yn wasanaethgar iawn yn y cylchoedd hyn, a theimlir ynddynt golled fawr ar ei hol. Yr oedd ganddi gariad mawr at grefydd, a bu yn ffyddlon gyda'r achos yn Alltyblacca. Bu yn noddedig o selog gyda'r Ysgol Sul oddiar pan yn ieuanc, ac er ei bod yn arferiad mewn Ysgolion Sul i newid yr ysgrifenyddion bob blwyddyn, cawsai hi ei hail-ethol yn ysgrifenyddes o flwyddyn i flwyddyn am y teimlai pawb nad oedd neb mor deilwng a chymwys a hi i ddal y swydd. Mynychodd yr Ysgol Sul, heb fod yn absenol ond unwaith yn ystod y deunaw mlynedd diweddaf, a marwolaeth ei mham, yr hyn ddigwyddodd Ionawr diweddaf, oedd yr achos iddi fod yn absenol y tro hwnw. Amlygodd aelodau yr Ysgol Sul eu parch dwfn iddi a'u gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth drwy roddi *wreath* brydferth ar ei bedd. Cymerai ran flaenllaw gyda phob mudiad yn yr eglwys, a gweithredai bob amser gydag amcanion da. Meddai ar dymher dawel ac addfwyn, ac ni thramgwyddid hi byth. Yr oedd sirioldeb a hawddgarwch yn nodweddion amlwg yn ei bywyd, ac wedi enill iddi lu o gyfeillion. Claddwyd y Gwener canlynol yn mynwent eglwys Alltyblacca. Gwasanaethwyd gan y Parchn. L. Williams ; J. Davies ; D. Cellan Evans ; D. C. Griffiths, Aberduar, a E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Y Tad Nefol fyddo yn agos at y priod yn ei unigrwydd, ac a gysuro y perthynasau eraill oeddynt mor hoff o'r ymadawedig. Traddodir y bregeth angladdol prydnawn Sul, Rhagfyr 22.

MANION AC HANESION.

ABERYSTWYTH. — Mae'r gynulleidfa fechan yma yn ffodus iawn ar y cyfan yn yr ymwelwyr sydd yn talu ymweliad â'r dref yn yr haf. Maent yn gymorth mawr ini gario'r gwaith ymlaen. Ymhlith y rhai hyn, un o'r ffyddlonaf a'r defnyddiolaf y blynyddau diweddaf yma yw Mr. St. Clair, o Sheffield, yr hwn am oddeutu dau fis bob haf sydd nid yn unig yn mynychu'r addoliad yn gyson bob Sul, ond sydd hefyd yr un mor ffyddlon wrth yr organ, ar yr hon y mae yn feistr. Hir y parhao ei ymweliadau a'i ffyddlondeb gyda'r achos da.

CAERONEN. — Gadawodd y diweddar Mrs. Griffiths, Llandilo (a chyn hynny o Rydderchlwyd, Cellan), gàn punt yn ei hewyllys i hen Eglwys Caeronen. Er ei bod wedi ymadael a'r ardal er's rhyw ugain mlynedd, eto yr oedd ganddi le cynnes yn ei chalon at yr hen Eglwys, a gorwedd ei gweddillion yn naear ei mynwent.

CRIBYN. — Y mae'r Cadben S. Jones, R.A.F., mab Mr. a Mrs. Jones, Frongelyn, wedi ennill y *Distinguished Flying Cross*, am waith pwysig tu ol i'r *German lines*. Y mae hefyd, yn ddiweddar, wedi cael yr anrhydedd o gludo Pennaeth yr *Air Force* ol a blaen rhwng Lloegr a Ffrainc amryw droion. Llongyfarchiadau iddo ar ei ddyrchafiad.

DUWINYDDIAETH.—Un dydd, yr oedd y plant yn cwympo maes a'u gilydd, ac yn galw enwau cas un ar y llall. "Yr ydych yn bendew iawn," ebe un, "neu chwi feddyliech yr un modd a mi." "Pe na ba'ech yn hollol ddall, chwi welech a'm llygaid i," ebe un arall. "Eich anwybodaeth sydd yn fy mlino i," ebe'r trydydd. "Nid yw anwybodaeth cynddrwg a drwg-ewyllys," ebe'r pedwerydd. Ar hynny dyna'r Angel-sy'n-deall-pethau yn dod gerllaw. "Beth yw'r hyn yr ydych yn ymryson yn ei gylch?" ebe'r Angel. "Yn nghylch ein Duw," ebe'r plant. "O!" ebe'r Angel, "Duw'r Ymryson, wrth gwrs?" "Na," ebe un, "Duw Heddwch!" "Duw Doethineb!" ebe un arall. "Duw Cariad," ebe'r trydydd. "Yn wir!" ebe'r Angel, "faswn i byth yn meddwl hynny."

YR UNFED-GORCHYMYN-AR-DDEG.—Cafodd yr enwog a'r dysgedig Archesgob Usher, o fendigedig goffadwriaeth, ei longddryllio ar draeth anghyfanedd yn yr Iwerddon, a chan ei fod mewn eisieu fe aeth, yn naturiol, at yr offeiriad i ofyn am help; ac heb rhoddi ei enw na'i safle, dywedodd ei fod yn perthyn i'r un dlwedigaeth ag yntau. Holodd yr offeiriad ef mewn modd anfoesgar, a dywedodd ei fod yn ameu a wyddai efe nifer y gorchymynion. "Mi wn, yn wir," ebe'r Archesgob yn dawel, "y maent yn *un-ar-ddeg*." "Un-ar-ddeg!" ebe'r offeiriad, "adroddwch yr unfed-ar-ddeg." "Ufuddhewch i'r unfed-ar-ddeg," ebe'r Archesgob, "ac yr ydych yn sicr o wneud: 'Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, ar i chwi garu eich gilydd.'"

MAE'R arlunydd yn gwneud ei hunan yn arlunydd drwy arlunio, y cerddor yn gwneud ei hunan yn gerddor drwy ymarfer a cherddoriaeth, y gwrolgampwr yn gwneud eu hunan yn wrolgampwr drwy redeg neu rwyfo neu ymgodymu, y Marsiandwr yn gwneud ei hunan yn farsiandwr drwy brynu a gwerthu, ac yn gyffelyb mae'r Cristion proffesedig yn gwneud ei hunan yn Gristion gwirioneddol yn unig drwy gyflawni pethau Cristnogol.

YMDDENGYS Y CYNWYSIAD YN RHIFYN IONAWR 1919.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

Eternal Life Here and Hereafter. By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £24,906,432. Paid up Capital .. £5,188,840.

Reserve Fund .. £4,342,826.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1917.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz:—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,075,536 Shares of £12 each ..	5,188,840	0	0
,, Reserve Fund	4,342,826	0	0
,, Dividend payable on 1st February, 1918	350,246	14	0
,, Balance of Profit and Loss Account as below	733,785	5	8
	10,615,697	19	8
,, Current, Deposit & other Accounts	220,551,768	9	5
,, Acceptances on account of Customers	8,826,865	17	6
	£239,994,332	6	7

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	44,110,353	13	10
,, Money at Call and at Short Notice	31,003,560	9	2
,, Investments:—			
War Loans, at cost (of which £408,418 10s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	33,116,534	13	6
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	181,789	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,774,873	4	2
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	660,352	18	0
Sundry Investment	521,463	6	10
,, Bills of Exchange	35,052,991	17	10
	146,421,719	12	4
,, Advances on Current and other Accounts ..	68,510,358	1	9
,, Advances on War Loans	12,645,539	9	0
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	8,826,865	17	6
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	2,837,210	6	0
,, Belfast Bank Shares:—			
49,688 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
148,204 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,225,908 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 473,269 0 0			
	752,639	0	0
	£239,994,332	6	7